# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod Preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - 3 Tachwedd 2023**

(Tudalennau 1 - 2)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) - 9 Tachwedd 2023**

(Tudalen 3)

**2.3 PTN 3 - Ymateb Comisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor ar y gwaith o Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25**

(Tudalennau 4 - 12)

## 3 Diweddariad ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn 2023-24: Sesiwn dystiolaeth

(09.30-10.15) (Tudalennau 13 - 24)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys, Llywodraeth Cymru

Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau ategol:**

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## Egwyl

## 4 Goblygiadau ariannol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(10.15-11.15) (Tudalennau 25 - 52)

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Michael Kay, Uwch Swyddog Cyfrifol y Bil - Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Etholiadau, Llywodraeth Cymru

Mathew Xerri, Pennaeth Polisi Etholiadau, Is-adran Etholiadau

**Dogfennau ategol:**

Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) (PDF 446KB)

Memorandwm Esboniadol (PDF 2.6MB)

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfod ar 13 Rhagfyr.

(11.15)

## 6 Goblygiadau ariannol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(11.15-11.25)

## 7 Diweddariad ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn 2023-24: Trafod y dystiolaeth

(11.25-11.30)

## 8 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Papur materion allweddol

(11.30-12.00) (Tudalennau 53 - 62)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-19-23 P1 - Papur materion allweddol

## 9 Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

(12.00-12.15)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-19-23 P2 - Adroddiad drafft **(I'w gynnwys yn y pecyn atodol)**

## 10 Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

(12.15-12.30) (Tudalennau 63 - 86)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-19-23 P3 - Adroddiad drafft

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Mick Antoniw AS,
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad,
Llywodraeth Cymru

3 Tachwedd 2023

Annwyl Mick,

**Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 26 Hydref mewn perthynas â'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a drafodwyd gennym.

## Cofrestru etholiadol heb gais

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, er mwyn ychwanegu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer etholwyr ifanc ac etholwyr sy'n agored i niwed, y bydd y gofrestr etholiadol agored yn cael ei gwaredu ar gyfer etholiadau Cymreig. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod darpariaeth i alluogi hyn wedi'i chynnwys yn y Bil ac nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio sut y bydd y gofrestr yn cael ei gwaredu fel arall. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch pam nad yw'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn y Bil, a beth yw'r amserlenni ar gyfer ei gwaredu.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Offeryn Statudol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1953 i waredu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig, a chytuno i gadarnhau pa weithdrefn fydd yn cael ei defnyddio i wneud yr is-ddeddfwriaeth.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi manylion a roddwyd ystyriaeth i'r effaith y gallai gwaredu'r gofrestr agored yng Nghymru ei chael ar fusnesau, elusennau a sefydliadau eraill.

## Gwasanaethau i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig


Mae adran 28 yn pennu bod yn rhaid gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i hybu amrywiaeth yn nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol personau

sy'n ceisio cael eu hethol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am y meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol person er mwyn bod yn gymwys i gael gwasanaethau o'r fath.

Byddem yn ddiolchgar am ymateb erbyn 16 Tachwedd er mwyn ein helpu i ystyried y Bil.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a’r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 2.2

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf - MA/LW/2867/23

Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN.

9 Tachwedd 2023

Annwyl Llyr,

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymais i ddarparu gwybodaeth am gymorth i breswylwyr ag offer nad ydynt yn cydymffurfio mewn ardaloedd rheoli mwg. Mae'r llythyr hwn yn darparu'r wybodaeth hon.

Mewn ardaloedd rheoli mwg, nid oes gofyniad awtomatig ar aelwydydd i uwchraddio eu hoffer, felly bydd pobl yn gallu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth rheoli mwg heb fod angen uwchraddio drud. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar ba fathau o danwydd solet y gallant eu defnyddio yn yr offer hŷn hyn. Mae opsiynau hefyd ar gael i awdurdodau lleol wrth greu a gorfodi ardal rheoli mwg.  Gallant ddewis gwneud gwaharddiadau wrth greu gorchymyn rheoli mwg, fel math o le tân neu adeilad. Byddaf yn ei wneud yn glir mewn canllawiau, cyn rhoi unrhyw ddirwyon, fy mod yn disgwyl i awdurdodau lleol gynnig cyngor a chymorth i helpu aelwydydd i gydymffurfio â deddfwriaeth rheoli mwg.

Mae cymorth ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Nod Strategaeth Wres i Gymru | LLYW.CYMRU, sydd ar agor ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghori, yw cefnogi perchnogion tai gyda chyngor a chefnogaeth ar gyfer pontio i wres carbon isel. Mae argraffiad newydd Rhaglen Cartrefi Cynnes yn parhau i ariannu mesurau i gefnogi aelwydydd cymwys. Mae cyllid arall ar gyfer y gost o ddisodli systemau gwresogi tanwydd ffosil ar gael i aelwydydd yng Nghymru a Lloegr drwy'r Cynllun Uwchraddio  Boeleri.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru
Comisiwn y Senedd
—
Welsh Parliament
Senedd Commission



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

9 Tachwedd 2023

Annwyl Peredur,

Diolch am adroddiad eich Pwyllgor, **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-2025,** a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2023. Ceir manylion am ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid yn **Atodiad A.**

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2024-25, a'i fod yn croesawu cynnwys llinell gyllideb benodol ar gyfer rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio yn y gyllideb ddrafft. Bwriad Comisiwn y Senedd yw sicrhau cymaint o dryloywder â phosibl wrth gyflwyno costau y gellir eu priodoli i'r ddwy raglen hyn yng nghyllidebau'r dyfodol.

Rwyf hefyd yn falch bod y Pwyllgor wedi nodi'r anawsterau y mae amseriad hwyr Datganiad Hydref y DU, ac yn arbennig y diffyg sicrwydd ynghylch faint o arian a fydd ar gael yng Nghronfa Gyfunol Cymru, yn eu hachosi o ran gallu'r Comisiwn i osod ei gyllidebau ar lefel briodol yng nghyd-destun sefyllfa ariannu'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cydnabod y gefnogaeth y mae'r Comisiwn yn ei darparu i'w staff a'u llesiant. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod ein holl staff yn cael y cymorth cywir yn y cyfnod hwn o bwysau.

Nodaf eich sylwadau ar hepgor manylion yn y gyllideb ddrafft ar ymgysylltu a gwybodaeth fanylach am gyllid prosiectau. Croesawaf eich argymhellion ein bod yn darparu'r wybodaeth hon ar adeg pan fo'r gwaith cynllunio manwl wedi'i gwblhau, sy'n golygu bod y wybodaeth a ddarperir gan y Comisiwn yn fwy aeddfed o'r herwydd. Nid oedd yn fwriad gennym erioed i beidio â darparu'r wybodaeth i'r Pwyllgor, ond wrth i ni symud ymlaen at y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig, mae ein gwaith manwl sy'n cadarnhau'r wybodaeth ofynnol yn digwydd yn ddiweddarach yn ein blwyddyn ariannol.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu, ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl ar y cynnig ynghylch cyllideb y Comisiwn ar 15 Tachwedd. Os oes unrhyw wybodaeth bellach yr hoffai eich Pwyllgor ei chael, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Yn gywir

Ken Skates AS

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Kate Innes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad A**

**Argymhellion y Pwyllgor Cyllid**

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi 'Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25' ac, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'n cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2024-25, ac yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r gyllideb hon.**

Nodwyd

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn, yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion, yn mynd ati'n barhaus i geisio gwella prosesau a sicrhau effeithlonrwydd, a bod y Pwyllgor Cyllid yn cael gwybod am y cynnydd cyn gosod cyllideb ddrafft 2025-26**

Derbyniwyd

"Accounting Officers should ensure they have the appropriate mechanisms in place to ensure effective monitoring and reporting of departmental efficiency savings, and that all public servants in their departments are aware of and follow the guidance set out in the Government Efficiency Framework published by the Government Finance Function in HMT in July 2023".

Mae hyn yn rhoi pwyslais newydd i'r Comisiwn ar sicrhau effeithlonrwydd mewn ffordd sy'n fesuradwy ac yn adroddadwy. Bydd yn ofynnol i ni fel sefydliad gydymffurfio â'r gofyniad adrodd o 2024-25.

Fel rhan o'r rhaglen Ffyrdd o Weithio a'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig, bydd ffocws ar welliant parhaus yn dod yn brif sbardun darparu gwasanaethau ar draws y sefydliad. Byddwn yn paratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Cyllid ar ein cynnydd cyn i'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 gael ei gosod.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y bydd unrhyw arbedion a wneir yn 2023-24 yn parhau i'w chael ar ei wasanaethau ac unrhyw brosiectau arfaethedig ar gyfer 2024-25, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24.**

Derbyniwyd

Mae'r Comisiwn yn monitro'n agos unrhyw effaith y mae'r arbedion a wnaed yn ystod 2023-24 yn ei chael, boed hynny oherwydd yr arbedion yn y Gyllideb Atodol neu'r arbedion sy'n ofynnol i ariannu'r taliad costau byw "yn ystod y flwyddyn". Nid yw'r arbedion a nodwyd fel rhan o'r broses hon yn brif arbedion cylchol. Mae rhai o'r arbedion ynni wedi esgor ar arbedion rheolaidd, a byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r rheini am weddill y flwyddyn. Rydym yn cydnabod yr effaith y gallai'r taliad costau byw ei chael ar y gwaith o gyflawni'r prosiect gan y gallai'r effaith o gael prosiectau heb eu hariannu gael ei theimlo yn 2024-25 a thu hwnt. Caiff y Pwyllgor adroddiad ar yr effaith gennym cyn diwedd mis Mawrth 2024. Bydd yr adroddiad yn cynnwys yr effaith sy'n cael ei nodi yn 2024-25 ar ddarparu gwasanaethau a chyflawni prosiectau.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn:**

- **yn hysbysu'r Pwyllgor pan fydd wedi dod i gytundeb cyflog ar gyfer 2024-25, gan gynnwys unrhyw ddyfarniadau cyflog anghylchol; ac**
- **yn gwerthuso effaith unrhyw gytundeb cyflog ar staff ac yn rhannu ei ganfyddiadau gyda'r Pwyllgor.**

Derbyniwyd

Mae'r cytundeb cyflog cyfredol yn parhau tan fis Mawrth 2025. Bydd y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau i'r cytundeb hwnnw sy'n effeithio ar 2024-25 pan gwblheir y trafodaethau ar gyfer y cytundeb cyflog nesaf. Fel rhan o broses y cytundeb cyflog, bydd y Comisiwn yn cynnal gwerthusiad o effaith y cytundeb cyflog terfynol ar staff. Bydd y Comisiwn yn rhannu'r gwerthusiad hwnnw â'r Pwyllgor pan fydd y broses wedi'i chwblhau'n llawn.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am effaith gyllidebol unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas â chyflogau staff y Comisiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, ac, os gwneir unrhyw daliadau ychwanegol, egluro sut y caiff y taliadau hyn eu hariannu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, tra'n cynnal y lefelau presennol o wasanaeth.**

Derbyniwyd

Bydd y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am effaith gyllidebol unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas â chyflogau staff y Comisiwn o fewn blwyddyn ariannol 2024-25. Bydd y Comisiwn yn hysbysu'r Pwyllgor o unrhyw daliadau ychwanegol sydd i'w gwneud i staff y Comisiwn, a bydd yn dangos sut y caiff y taliadau hyn eu hariannu heb amharu ar lefelau gwasanaeth cyfredol, a hynny mewn modd prydlon, ar ôl i'r trafodaethau gael eu cwblhau.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn parhau i gynnal arolwg rheolaidd o staff i fonitro effaith llwythi gwaith, gan gynnwys lles meddyliol ac ariannol staff, ac yn rhoi canlyniadau ymarferion o'r fath i'r Pwyllgor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.**

Derbyniwyd

Bydd y Comisiwn yn parhau i gynnal ei arolwg llesiant o staff y Comisiwn, sy'n cwmpasu'r pedair colofn llesiant (sef corfforol, meddyliol, ariannol a chymdeithasol), a bydd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor gyda chrynodeb o'i ganfyddiadau yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hon unwaith y bydd ar gael. Cynhelir yr arolwg staff nesaf ym mis Mawrth ac efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael canlyniadau arolygon y flwyddyn gyfan mewn un adroddiad y gellir ei ddarparu yn nhymor yr haf 2024.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn darparu rhagor o wybodaeth am brosiect Caerdydd 2032, gan gynnwys eglurder ynghylch a yw materion fel gosod ffenestri newydd a dyfodol y brydles yn rhan o'r prosiect hwnnw, ac mae'n gofyn i'r Comisiwn ymgysylltu'n llawn â'r Aelodau ar faterion o'r fath i sicrhau eu bod adlewyrchir safbwyntiau mewn unrhyw gynigion.**

Nodwyd

Mae'r Comisiwn yn nodi'r cais am ragor o wybodaeth ac yn cynnig darparu briff technegol i'r Pwyllgor i sicrhau bod ganddo'r wybodaeth berthnasol. Mae'r Comisiwn yn deall pwysigrwydd ymgysylltu'n llawn ag Aelodau ar brosiect Bae 2032, i geisio eu safbwyntiau ac i adlewyrchu'r safbwyntiau hynny mewn unrhyw gynigion yn y dyfodol, ac mae'n nodi'r cais i gefnogi hyn. Bydd y Comisiwn yn cynnal rhaglen ymgysylltu eang ag Aelodau dros y misoedd nesaf a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ymgysylltu hwn i'r Pwyllgor yn ystod gwanwyn 2024.

**Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn galw ar y Comisiwn i ddarparu rhestr o brosiectau arfaethedig ar gyfer 2024-25, gydag amcangyfrif o'r cyllid a ddyrannwyd, cyn dechrau blwyddyn ariannol 2024-25 ac i ddull o'r fath gael ei fabwysiadu ar gyfer ceisiadau cyllidebol yn y dyfodol.**

Derbyniwyd

Rydym yn croesawu'r newid yn yr amserlen ar gyfer darparu'r wybodaeth hon a bydd y Comisiwn yn darparu rhestr o brosiectau arfaethedig ar gyfer 2024-25 gydag amcangyfrif o'r cyllid a ddyrannwyd cyn dechrau blwyddyn ariannol 2024-25. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei darparu ym mhob blwyddyn ddilynol yn unol â'r un amserlen. Bydd prosiectau hysbys sylweddol yn parhau i gael eu nodi yn y Gyllideb Ddrafft gyda'r rhestr derfynol, gytunedig yn cael ei darparu yn ddiweddarach.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiwn wedi sefydlu 'Grŵp Rheoli Prosiectau' i flaenoriaethu cyllid prosiectau yn ogystal ag unrhyw danwariant sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Mae'n rhaid i wasanaethau sydd am gael cyllid yn ychwanegol at gyllidebau gweithredol lunio achos busnes sy'n egluro cyd-destun eu cynnig, y risgiau os nad aiff y cynnig ragddo, a sut mae'r cynnig yn gyson â'r Cynllun Cyflawni Corfforaethol a'r Nodau Strategol.

Nid yw'r amser arweiniol ar gyfer paratoi'r gyllideb ddrafft yn ffafriol i ddarparu rhestr fanwl o brosiectau gymaint o flaen y flwyddyn ariannol. Wrth gwrs, bydd prosiectau mawr â therfynau amser penodol yn hysbys ac fe gynllunnir ar eu cyfer - er enghraifft newid system y Gyflogres - ond mae'n anodd darparu ffigurau dangosol cyn i'r prosesau tendro gael eu cwblhau.

Bydd y broses o flaenoriaethu gwariant prosiect ar gyfer 2024-25 yn dechrau ym mis Ionawr 2024. Mae sefyllfa pob blwyddyn yn un ddeinamig ac, yn y pen draw, gall y rhestr o brosiectau a gyflawnir fod yn wahanol i'r cynnig cychwynnol wrth i'r Grŵp Rheoli Prosiect geisio, mewn ffordd ddeinamig, ail-flaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael yn ystod y flwyddyn wrth i amgylchiadau newid a blaenoriaethau esblygu. Bydd y newid yn golygu bod modd i wybodaeth o ansawdd gwell am gyflawni prosiectau gael ei darparu i'r Comisiwn.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn darparu rhagor o wybodaeth am natur y gwasanaethau ymgynghori allanol a ddarperir i FwrddT aliadau Annibynnol y Senedd a'r costau cysylltiedig.**

Derbyniwyd

Mae rhagor o fanylion am y gwasanaethau ymgynghori allanol a'r costau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb ddrafft y Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi'u nodi isod.

Gwasanaethau Ymgynghori Allanol (£90,000 – 2024-25; £30,000 – 2023-24)

Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi nodi tri darn o waith prosiect arbenigol y bydd o bosibl yn ymgymryd â nhw yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Mae cyfanswm o £90,000 wedi cael ei ddyrannu yn y gyllideb ddrafft i gyflawni'r prosiectau arfaethedig hyn. Pan fydd gwaith caffael ar gyfer y prosiectau wedi cael ei gwblhau, bydd rhaniad rhwng pob prosiect ar gyfer cyllid yn cael ei gadarnhau.

Y rhain yw:

- Cam 2 posibl o’r adolygiad o gyflogau a graddfeydd staff cymorth yr Aelodau, i roi sylw i unrhyw argymhellion o Gam 1 fel y gellir sicrhau bod y fframwaith cyflog a graddfeydd ar gyfer staff cymorth a grŵp gwleidyddol yn deg a’i fod yn adlewyrchu’r rolau a’r cyfrifoldebau sy’n ofynnol gan staff er mwyn cefnogi Aelodau’n briodol. Mae Cam 1 o'r adolygiad o gyflogau a graddfeydd staff ar y gweill gyda chymorth arbenigwyr annibynnol.
- Adolygiad o gyflogau Aelodau i sicrhau bod hyn yn cael ei feincnodi yn erbyn cymaryddion perthnasol, a’i fod yn adlewyrchu’n ddigonol y newid yn rolau a chyfrifoldebau Aelodau a deiliaid swyddi yn y Seithfed Senedd.
- Fel rhan o adolygiad o gyflog yr Aelodau, mae'r Bwrdd hefyd yn archwilio opsiynau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i lywio penderfyniadau'r Bwrdd.

Mae meincnodi ac adolygu cyflogau yn gofyn am wybodaeth a phrofiad arbenigol, yn enwedig o gofio natur unigryw rolau Aelodau, y fframwaith cyflogaeth ar gyfer Aelodau a’u staff cymorth, a'r sensitifrwydd gwleidyddol sy'n gysylltiedig ag adolygu cyflogau Aelodau a’u staff cymorth. Mae cael cyngor allanol, annibynnol (yn hytrach na bod staff Comisiwn y Senedd yn gwneud y gwaith yn fewnol) yn bwysig o ran hygrededd y broses a chyfreithlondeb unrhyw gasgliadau gyda rhanddeiliaid allweddol.

Bydd pob cais am arian ar gyfer y prosiectau hyn yn mynd trwy law’r Grŵp Rheoli Portffolio, a fydd yn adolygu'r achos busnes cysylltiedig i sicrhau ei fod yn rhesymol cyn iddo wneud argymhelliad i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch dyrannu a rhyddhau cyllid o dan y gyllideb. Mae'r Grŵp Rheoli Portffolio yn cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Cyllid.

**Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn parhau i archwilio mentrau i leihau’r defnydd o ynni, mewn perthynas ag ystad y Comisiwn a swyddfeydd etholaethol yr Aelodau, gyda’r nod o sicrhau gwell gwerth am arian.**

Nodwyd.

Mae’r Comisiwn, drwy ei strategaeth gynaliadwyedd a’i system reoli amgylcheddol, wedi ymrwymo i welliant amgylcheddol parhaus a lleihau ein hôl troed carbon ar y ffordd i *sero net*. Mae gennym raglen waith sy'n cynnwys adolygu technolegau

newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg a'u haddasrwydd ar gyfer yr ystâd, i leihau defnydd a sicrhau gwerth am arian i bwrs y wlad.

Rydym yn cydnabod yr awydd i leihau effaith carbon a chostau rhedeg swyddfeydd etholaeth a byddwn yn ymchwilio i'r ffordd orau o gefnogi hyn gyda chydweithwyr yn nhîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Pwyllgor ac Aelodau o'r Senedd wrth i'n gwaith ddatblygu dros amser.

**Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod rhagor o wybodaeth am gynigion ymgysylltu'r Comisiwn ar gyfer 2024-25, a'r costau cysylltiedig, yn cael eu cynnwys yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn yn y dyfodol, a bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y manylion hyn cyn gynted â phosibl.**

Derbyniwyd

Mae cynlluniau ar gyfer 2024-25 yn cael eu datblygu fel rhan o waith cynllunio gwasanaethau'r Comisiwn a byddwn yn darparu'r wybodaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. O ran blynyddoedd i ddod, cytunir ar y Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu bob tymor Senedd. Gyda dyfodiad cylch cynllunio 2 flynedd newydd ar gyfer gwasanaethau Comisiwn, byddwn yn gallu darparu cynlluniau ymgysylltu fel rhan o'r cylch cynllunio hwn.

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon